**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Mehefin 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Ceisio barn yr Aelodau am y berthynas yn y dyfodol rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn ddiweddar, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cynnal ymarferiad pwysig sydd wedi adolygu'n sylweddol ei berthynas â'r awdurdodau sy'n aelodau ohoni. Bellach, mae'n rhaid ehangu'r gwaith hwn i gynnwys y berthynas rhwng y Gymdeithas a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, yn enwedig oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid i'r awdurdodau yn dilyn datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub i Lywodraeth y Cynulliad.

1.2 Ar gais y tri awdurdod tân ac achub, cytunodd Steve Thomas, Cyfarwyddwr y Gymdeithas, i lunio papur trafod y gellid ei gyflwyno i bob awdurdod gyda'r bwriad o ennyn trafodaeth a dod i gytundeb, yn y pen draw, ar y ffordd ymlaen i'r berthynas rhwng yr Awdurdodau a'r Gymdeithas.

1.3 Mae'r papur trafod ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn, ac mae'n un cynhwysfawr a hunanesboniadol.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Gwahoddir yr aelodau i drafod cynnwys adroddiad Steve Thomas fel sail gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol â'r Gymdeithas.